

Yn frith o enwau

“..a rhof hefyd garreg wen, ac yn ysgrifenedig ar y garreg enw newydd na fydd neb yn ei wybod ond y sawl sydd yn ei derbyn.” (adn. 17)

Beth am ddarllen Datguddiad 2:12–17 ac yna myfyrio

Ddoe gwelsom fel mae'r achrestri yn y Beibl, sy'n golygu diflastod ym meddyliau llawer, yn dod, unwaith y deallir eu pwrpas, yn rhai o rannau mwyaf cynhyrfus yr Ysgrythur. Mae'n siŵr ichi sylwi ryw dro mai ychydig iawn o bobl ddiennw sydd yn y Beibl. Mae'r Ysgrythur, fel y soniodd rhywun, yn “frith o enwau”. “Yn ôl ei enw,” medd un awdur, “caiff person ei ddewis yn un o blith llawer ar gyfer cariad personol, agosrwydd arbennig a chyfrifoldebau penodol.”

Fe wŷr y storiwr mawr, George Macdonald, pa mor bwysig yw enw. Yn ei ddadansoddiad o destun heddiw fe sgrifennodd: “Drwy roi'r garreg wen efo'r enw newydd mae Duw'n cyfleu ei farn am y dyn wrth y dyn. Dengys y gwir enw gymeriad, natur, ac ystyr y person sy'n ei arddel... Pwy all roi hyn i ddyn, ei enw ei hun? Neb ond Duw. Am nad oes neb ond Duw yn gweld sut un ydy'r dyn... Dim ond wedi i'r dyn gael ei gydffurfio â'i enw mae Duw'n rhoi'r garreg efo'i enw arni iddo fo, oherwydd bryd hynny yn unig y medr o ddeall arwyddocâd ei enw.”

Un dydd fe gaiff pob credadun enw newydd – enw fydd yn disgrifio'r person a'i derbyniodd yn berffaith. Beth mae hyn i gyd yn ei ddweud wrthym ni? Dweud mae o: fod cariad Duw yn ymestyn at fanylion ac yn gariad sydd wrth ei fodd yn gweinidogaethu arnom ni, nid yn unig yn gyffredinol fel corff o bobl, ond hefyd fel unigolion. Os wyt ti'n ei chael hi'n anodd credu y byddi di'n bwysig yn y nefoedd am dy fod yn teimlo mor ddibwys i lawr yma ar y ddaear, yna meddylia am hyn: mae Duw wedi neilltuo enw newydd i ti a fydd yn cael ei roi iti oherwydd yr hyn a ddaethost trwy ei gymorth a'i ras ef yn Iesu Grist.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

2 Sam. 12:24–25;

Ioan 1:40–42;

Luc 22:31–34;

Ioan 21:15–17

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Pam y newidiwyd enw Solomon?
2. Pam alwodd Iesu frawd Andreas yn ôl enwau gwahanol?

Gweddi

O Dad, po fwyaf gwelaf i dy gariad yn ymestyn at y manylion, mwya'n y byd mae fy nghariad innau'n llifo tuag atat ti. Allai ddim disgwyl i dderbyn a chael fy nghydffurfio â'm henw newydd i. Diolch i ti, fy Nhadau. Amen.